Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Ymgysylltu a chyn-ymgynghori

# Dweud eich dweud am Dlodi Plant yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid i annog newid o ran mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb i gael effaith gadarnhaol ar fywydau plant a'u teuluoedd yng Nghymru. Er mwyn cefnogi hyn i ddigwydd, lluniodd Senedd Cymru ddeddf sy'n golygu bod rhaid i Weinidogion Cymru gael Strategaeth Tlodi Plant ar waith i Gymru. Bydd mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn parhau i ategu ein hamcanion o ran tlodi plant a'r camau gweithredu a gymerwn a'r penderfyniadau a wnawn i'w cyflawni.

Mae'r Strategaeth Tlodi Plant bresennol i Gymru wedi bod ar waith ers 2015. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae teuluoedd wedi wynebu pwysau ychwanegol oherwydd pandemig Covid-19 a'r argyfwng costau byw. Ar yr un pryd, mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi bod o dan bwysau ac rydym wedi gorfod blaenoriaethu beth rydym yn ei wneud a sut rydym yn gwario arian i gefnogi anghenion uniongyrchol pobl.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ei nod yw gwneud i gyrff cyhoeddus feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio atal problemau a gweithio mewn ffordd fwy cydgysylltiedig. Rydym yn cytuno na ddylai'r strategaeth ddiwygiedig fod yn gynllun ar gyfer gweithredu gan Lywodraeth Cymru yn unig, ond yn gynllun ar gyfer Cymru gyfan. Mae hyn yn cydnabod y cyfraniad y mae'n rhaid i bob un ohonom ei wneud i sicrhau'r newid sydd ei angen ar gyfer plant a theuluoedd. Bydd hyn yn ein helpu i greu Cymru rydym i gyd am fyw ynddi, yn awr ac yn y dyfodol.

Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am lawer o'r newidiadau a all roi mwy o arian ym mhocedi pobl – pethau fel budd-daliadau lles, trethi, a lefelau gwariant cyhoeddus.

Er hynny, mae llawer o bethau y gall Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru eu gwneud i wella bywydau plant a'u teuluoedd sy'n byw mewn cartrefi tlawd, ac i leihau tlodi yn y tymor hwy. Yn enwedig pan fyddwn ni i gyd yn gweithio gyda'n gilydd. Mae'r trydydd sector (mudiadau gwirfoddol ac elusennau) yn darparu cefnogaeth hanfodol i blant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau yng Nghymru ac mae ganddo rôl allweddol wrth fynd i'r afael â thlodi plant. Felly hefyd y sector preifat (busnesau) wrth gefnogi llwybrau allan o dlodi, drwy eu gweithgarwch

uniongyrchol fel cyflogwyr a gweithio mewn partneriaeth drwy sefydliadau elusennol gydag elusennau bach a lleol, pobl a chymunedau.

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i blant a phobl ifanc, teuluoedd ac aelodau'r gymuned, a sefydliadau sy'n cefnogi plant mewn tlodi ac sy'n llais drostynt, i'n helpu i wneud penderfyniadau am yr hyn y dylem ei wneud i fynd i'r afael â thlodi plant.

Mae'r gwaith ymgysylltu hwn yn ddechrau ar y gwaith o benderfynu beth fyddwn yn ei gynnwys mewn Strategaeth Tlodi Plant ddrafft i Gymru. Bydd y strategaeth ddrafft hon wedyn yn destun ymgynghoriad ffurfiol 12 wythnos.


Yna, byddwn yn ystyried yr holl bethau mae pobl wedi'u dweud wrthym er mwyn cyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant newydd i Gymru. Byddwn hefyd yn defnyddio'r hyn mae pobl wedi'i ddweud i gwblhau asesiad o'r ffyrdd y mae'r strategaeth yn debygol o effeithio ar bethau fel cydraddoldeb, hawliau plant a'r Gymraeg.

Rydym eisoes wedi edrych ar dystiolaeth gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Archwilio Cymru, Comisiynydd Plant Cymru a sefydliadau fel Plant yng Nghymru a Sefydliad Bevan. Mae eu tystiolaeth wedi cynnwys tystiolaeth gan blant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi.

Mae'r dystiolaeth hon wedi ein helpu i ddechrau meddwl am yr hyn sydd angen inni ei drafod â phobl. Mae strategaeth yn esbonio beth rydym yn bwriadu ei wneud, pam ein bod yn bwriadu ei wneud a sut y byddwn yn gwybod os ydym yn cyflawni'r hyn rydym am ei gyflawni.

Mae angen eich help arnom i benderfynu beth i'w gynnwys mewn ymgynghoriad ffurfiol ar Strategaeth Tlodi Plant newydd i Gymru.

## 1. Meysydd trafod yr hoffem glywed eich barn amdanynt



**Lleihau costau a gwneud y mwyaf o incwm teuluoedd fel bod gan blant a phobl ifanc ddigon o gymorth ariannol a materol ar gyfer yr hyn sydd ei angen arnynt.**

Mae hyn yn golygu sicrhau bod pobl yn gwybod beth mae ganddynt hawl iddo a’i gwneud yn haws i bobl hawlio cymorth a chefnogaeth ariannol i gael mynediad at bethau ymarferol. Mae hefyd yn golygu lleihau costau bwyd, tanwydd a thai, yn ogystal ag eitemau hanfodol fel cynnyrch mislif, pethau i fabanod newydd a gwisgoedd ysgol, a helpu gyda’r costau hyn.

Rydym eisiau i wasanaethau a sefydliadau feddwl am sut y gallant sicrhau bod yr hyn maent yn ei wneud yn hwyluso pethau i blant a theuluoedd. Er enghraifft, sefydliadau yn gofyn i bobl lenwi sawl ffurflen wahanol gyda’r un wybodaeth ar gyfer cymorth gan adrannau unigol, ac i fynychu sawl apwyntiad ar adegau gwahanol ynglŷn â’r un mater.

Nid ydym yn gwybod am ba hyd y bydd yr argyfwng costau byw yn parhau ac rydym yn poeni bod y DU yn wynebu dirwasgiad a fydd yn gwthio mwy o bobl i dlodi. Mae a wnelo hyn â chymorth i blant a’u teuluoedd, yn awr ac yn y dyfodol.

Wrth feddwl am gymorth ariannol a materol, beth yw'r <u>tri pheth</u> fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i blant a'u teuluoedd, yn awr ac wrth edrych tua'r dyfodol? (Gan gofio bod y systemau treth a budd-daliadau yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU)



**Creu llwybrau allan o dlodi fel bod gan blant a phobl ifanc a'u teuluoedd ddigon o gymorth ariannol a materol ar gyfer yr hyn sydd ei angen arnynt ac i gyrraedd eu potensial.**

Mae hyn yn golygu sicrhau bod plant yn tyfu i fyny â chyfle gwell i ddod allan o dlodi yn eu plentyndod ac fel oedolion.


Rydym yn gwybod bod angen i bob partner ganolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar hynny i blant. Gall buddsoddi ym mlynyddoedd cynnar bywyd plentyn wneud y gwahaniaeth o ran sicrhau canlyniadau iechyd a datblygiadol gwell, sydd yn ei dro yn dylanwadu ar eu cyfleoedd diweddarach am oes.

Rydym yn credu mai'r ffyrdd gorau o wneud hyn yw sicrhau bod addysg yn hygyrch i bawb, er mwyn adeiladu economi gref a swyddi sy'n talu'n well. Rydym am gefnogi plant a phobl ifanc i gael mynediad at gymorth fel y gallant gyrraedd eu potensial a mwynhau dyfodol heb dlodi. Mae hyn hefyd yn golygu cefnogi rhieni a gofalwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gael cyflog teg a dileu'r rhwystrau rhag mynediad at ofal plant fforddiadwy a thrafnidiaeth dda.

Mae a wnelo hyn â helpu plant a phobl ifanc gyda'u haddysg, cefnogi pobl i gael gwaith a sicrhau bod gwaith yn talu fel nad yw pobl sy'n gweithio, gan gynnwys rhieni sengl, yn cael trafferth i dalu costau byw. Rydym yn gwybod bod angen inni gynllunio sut mae gwneud hyn ar gyfer pobl sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol oherwydd gwahaniaethu sy'n gysylltiedig â rhywedd, anabledd, ethnigrwydd neu rywioldeb.

Mae hyn yn golygu gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi newid yn y tymor hir fel bod llai o blant yn tyfu i fyny mewn tlodi yn y dyfodol.

Wrth feddwl am lwybrau allan o dlodi, beth yw'r tri pheth fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i blant a'u teuluoedd, yn awr ac wrth edrych tua'r dyfodol?



**Cefnogi lles teuluoedd a sicrhau bod gwaith ar draws Llywodraeth Cymru yn cyflawni dros blant mewn tlodi, gan gynnwys y rhai hynny sydd â nodweddion gwarchodedig, fel y gallant fwynhau eu hawliau a chael canlyniadau gwell.**


Mae gan Lywodraeth Cymru Gynllun Plant a Phobl Ifanc sy’n esbonio’r rhan y gall Llywodraeth Cymru ei chwarae i wneud Cymru yn lle gwych i’n plant a’n pobl ifanc dyfu i fyny, byw a gweithio ynddo, lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Credwn fod gan bob un o’n plant a’n pobl ifanc yr hawl i wneud y canlynol:

- Cael y dechrau gorau mewn bywyd
- Cymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu a’u mwynhau, a chael yr addysg orau bosibl i feithrin eu gwybodaeth a’u creadigrwydd a’u galluogi i wireddu eu potensial
- Mwynhau ffyrdd iach o fyw a chael eu diogelu rhag niwed, camdriniaeth, esgeulustod a gwahaniaethu
- Gallu chwarae a chael hwyl
- Cael eu trin â pharch a chael rhywun i wrando arnynt
- Byw mewn cartref a chymuned sy’n lle braf i dyfu i fyny ynddo
- Cael y cymorth ariannol a materol sydd ei angen arnynt

Rydym yn gwybod y gall tlodi ei gwneud yn anodd i blant a phobl ifanc fwynhau rhai o’r hawliau hyn. Rydym hefyd yn gwybod bod pethau fel rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd yn ei gwneud yn fwy tebygol i blant fod yn byw mewn tlodi a bod y pethau sydd angen inni eu gwneud i helpu yn wahanol i blant, pobl ifanc a theuluoedd gwahanol.

Mae hyn yn golygu bod angen inni feddwl, o ran yr holl waith rydym yn ei wneud ar draws y Llywodraeth i gyflawni polisïau a rhaglenni, sut y gallwn gyflawni dros blant a phobl ifanc mewn tlodi, a sut rydym yn gwneud yn siŵr nad yw gwahaniaethu sy’n gysylltiedig â rhywedd, anabledd, ethnigrwydd neu rywioldeb yn ei gwneud yn anoddach iddynt a’u teuluoedd lwyddo.

Wrth feddwl am hawliau plant, cydraddoldeb, a chanlyniadau, beth yw'r tri pheth fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i blant a'u teuluoedd, yn awr ac wrth edrych tua'r dyfodol?



Sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y bobl a'r gwasanaethau sy'n rhyngweithio â nhw ac yn eu cefnogi, a herio stigma tlodi.

Mae hyn yn golygu ein bod yn disgwyl i'r bobl a'r gwasanaethau sy'n cefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd weithredu mewn ffordd sy'n cyrraedd safonau uchel o ran gwasanaeth cyhoeddus ac nad yw'n ychwanegu at y pwysau a ddaw yn sgil tlodi. Rydym yn gwybod y gall y pwysau hyn niweidio lles meddyliol ac iechyd meddwl.

Mae hyn yn cynnwys dod o hyd i ffyrdd o symleiddio systemau a gwneud cymorth yn hawdd ei gael. Mae hefyd yn golygu meddwl am sut y gallai gwasanaethau wahaniaethu neu achosi stigma, ac osgoi hyn.

Rydym yn credu y dylai rhan o'r gwaith hwn gynnwys sicrhau nad yw plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod wedi'u heithrio oherwydd bod eu teuluoedd ar incwm isel. Dylai awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus weithio gyda phlant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'u cymunedau i nodi'r hyn sy'n bwysig iddynt a'r hyn sydd angen ei newid.

Wrth feddwl am urddas, parch a stigma, beth yw'r tri pheth fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i blant a'u teuluoedd, yn awr ac wrth edrych tua'r dyfodol?

2. A oes unrhyw beth arall yr hoffech inni ei wybod?

A oes unrhyw beth arall y dylem feddwl amdano? Ni allwn addo cynnwys popeth y bydd plant a phobl ifanc, eu teuluoedd a'u cymunedau, neu sefydliadau yn ei awgrymu yn yr ymgynghoriad ar y strategaeth. Fodd bynnag, byddwn yn cymryd eich holl safbwyntiau o ddifrif.

Mae'r strategaeth newydd yn cael ei datblygu ar adeg pan fo'r economi o dan straen mawr ac mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniadau anodd ynglŷn â sut i wario arian cyhoeddus yn y ffyrdd a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf yn y tymor byr a'r tymor hir wrth inni gyflawni o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Wrth edrych tua'r dyfodol, ni allwn warantu faint o gyllid y bydd Cymru yn ei gael gan Lywodraeth y DU. Nid yw hynny'n golygu na allwn wneud gwahaniaeth drwy ddefnyddio'r arian sydd gennym yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl.

Yn olaf, rhowch wybod inni sut hoffech inni roi adborth ichi am yr hyn rydym wedi'i ddysgu drwy wrando a sut mae hynny wedi dylanwadu ar ein penderfyniadau.

A oes unrhyw beth arall y dylem feddwl amdano?

Sut hoffech chi inni roi adborth ichi am yr hyn rydym wedi'i ddysgu drwy wrando a sut mae hynny wedi dylanwadu ar ein penderfyniadau?